# Arweiniad atodol:
nam ar y clyw

Hydref 2022

Estyn

estyn.llyw.cymru
@Estyn@DE

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn darparu cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad/y cyhoeddiad penodol.**

**Beth yw'r diben?**

Darparu arweiniad i arolygwyr ar yr ystyriaethau i'w rhoi o ran dysgwyr sydd â nam ar y clyw.

**Ar gyfer pwy y mae wedi ei fwriadu?**

Holl arolygwyr ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol a'r sector addysg ôl-16.

**Pryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad?**

O fis Medi 2022.

## Cynnwys Tudalen


**Arweiniad atodol** **1**

**1 Cyflwyniad** **2**

**2 Diffiniadau** **2**

Maes arolygu 1: Dysgu 3
Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu 4
Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad 5
Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth 6

## Arweiniad atodol

Mae ein harweiniad arolygu yn esbonio ‘Beth rydym ni’n ei arolygu’ a ‘Sut rydym ni’n arolygu’. Fodd bynnag, rydym yn llunio arweiniad atodol hefyd i helpu arolygwyr i ystyried ymhellach agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant.

Mae’r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu rhai egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector y mae Estyn yn ei arolygu, oni bai bod y dogfennau’n datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ymhelaethu ar agweddau penodol ar addysg/hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwysig).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr. Nid yw’n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn drwyadl wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth iddynt ymateb i gwestiynau penodol sy’n dod i’r amlwg yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai’r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i ennill dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn hefyd. Gallent fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr hefyd o ran gwerthuso agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi’i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn mynd ati i arolygu gyda meddylfryd cadarnhaol, i sicrhau mai’r profiad dysgu proffesiynol gorau posibl fydd hwn ar gyfer y staff ym mhob darparwr
- Bydd arolygwyr yn arolygu ar sail dull sy’n cael ei arwain gan y dysgwr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio’n gryf ar ansawdd yr addysgu a’r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol, graff
- Bydd arolygwyr yn teilwra gweithgareddau’r arolygiad yn unol â’r amgylchiadau ym mhob darparwr, cyhyd â phosibl
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac yn ymateb i ganfyddiadau sy’n dod i’r amlwg, ac yn defnyddio’r ystod gynyddol o offer a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond byddant yn adrodd ar y cryfderau a’r gwendidau allweddol yn unig ym mhob darparwr

**Mae Estyn wedi gweithio gyda’r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS) er mwyn datblygu’r arweiniad hwn.**

## 1 Cyflwyniad

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adrannau canlynol yn ychwanegu at y wybodaeth yn yr arweiniad atodol ar anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r wybodaeth sy'n dilyn yn benodol i angen dysgu ychwanegol ac/neu anabledd.

Bydd yr arolygydd cofnodol yn ymwybodol o'r proffil ADY mewn ysgol, a bydd yn trefnu darpariaeth addas yn ystod yr arolygiad er mwyn gwneud yr ymholiadau dilynol. Mae angen i holl aelodau'r tîm arolygu fod yn ymwybodol o'r ystyriaethau cyffredinol ar gyfer arfer ystafell ddosbarth effeithiol a dylent farnu effeithiolrwydd safonau disgyblion a'r addysgu mewn perthynas â chynlluniau addysg unigol (CAUau), cynlluniau datblygu unigol (CDUau) neu ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig disgyblion.

Rydym wedi defnyddio'r term 'anghenion dysgu ychwanegol', ond rydym yn cydnabod y gellir defnyddio 'anghenion addysgol arbennig' yn y cyd-destun hwn hefyd yn ystod cyfnod gweithredu'r diwygiadau.

## 2 Diffiniadau

- Nid yw nam ar y clyw yn anabledd dysgu, ac o'r herwydd, ni ddylai disgwyliadau ar gyfer dysgwyr sydd â nam ar y clyw fod yn wahanol i ddisgwyliadau dysgwyr eraill.
- Gall namau ar y clyw fod yn ysgafn, yn gymedrol, yn ddifrifol neu'n ddwys.
- Unochrog yw'r enw a roddir ar golli clyw mewn un glust.
- Bydd llawer o ddysgwyr yn cael eu heffeithio'n sylweddol hefyd gan nam dros dro ar y clyw o ganlyniad i glust ludiog.
- Mae'n bwysig cydnabod bod unrhyw lefel o golli clyw, p'un a yw hynny'n barhaol neu dros dro, yn effeithio ar brofiad dysgu a gofynion mynediad disgybl.
- Gallai plant sydd â nam ar y clyw ddefnyddio amrywiaeth o dechnolegau clywed, gan gynnwys cymhorthion clywed digidol, mewnblaniadau cochleaidd, cymhorthion clyw wedi eu hangori yn yr asgwrn, systemau FM personol neu systemau maes sain personol. Er bod y dyfeisiau hyn yn gwella sain, nid oes unrhyw dechnoleg clyw yn disodli clyw arferol.
- Gall dysgwyr sydd â nam ar eu clyw ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu, gan gynnwys iaith lafar a darllen gwefusau, Cymraeg/Saesneg â Chymorth Arwyddion neu Iaith Arwyddion Prydain (BSL).
- Mae termau eraill ar gyfer nam ar y clyw yn cynnwys byddardod neu golli clyw.

## Maes arolygu 1: Safonau

**Ystyriaethau cyffredinol ar arfer effeithiol yn yr ystafell ddosbarth i blant sydd â nam ar y clyw.**

**A yw disgyblion…?**

- Yn gallu dilyn cyfarwyddiadau staff?
- Yn datblygu eu medrau, gan gynnwys gallu gweithio'n annibynnol?
- Yn datblygu o ran eu hyder ac yn hyfedr o ran cefnogi eu dysgu eu hunain?
- Yn gallu cymryd rhan mewn deialog ystyrlon â staff a disgyblion eraill?
- Yn gallu adnabod os byddant wedi cyflawni amcanion dysgu gwersi?
- Yn datblygu iaith a geirfa sy'n briodol i oedran?
- Yn datblygu medrau cymdeithasol sy'n briodol i oedran?

**Iaith arwyddion Prydain yn y cwricwlwm**

Gall mwy o ysgolion addysgu iaith arwyddion Prydain fel iaith oherwydd newidiadau fel rhan o ddiwygiadau'r Cwricwlwm i Gymru.

Efallai bod iaith arwyddion Prydain yn iaith gyntaf i rai dysgwyr, tra bod dysgwyr eraill efallai'n dysgu iaith arwyddion Prydain fel trydedd iaith neu iaith ddilynol.

Dylid ystyried iaith arwyddion Prydain yng nghyd-destun y Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlCh). Ychwanegwyd y wybodaeth benodol am iaith arwyddion Prydain at y camau dilyniant yn y MDaPh ILlCh. Nid oes asesiadau statudol yn iaith arwyddion Prydain ar hyn o bryd, ac nid oes cwrs TGAU yn iaith arwyddion Prydain ar gael ar hyn o bryd.

Dylai ysgolion a cholegau fod wedi sicrhau set medrau addysgu a rhuglder tiwtoriaid iaith arwyddion Prydain. Yn gyffredinol, dylai tiwtoriaid fod yn gymwys i o leiaf ddwy lefel uwchlaw'r lefel y maent yn ei haddysgu. Mae NDCS yn argymell cymhwyster BSL ar lefel 3, o leiaf.

Mae gan BSL gysylltiadau diwylliannol cryf â'r Gymuned Fyddar, a gallai ysgolion elwa ar estyn allan i Glybiau Byddar neu wasanaethau cymorth lleol.

## Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu

### Ystyriaethau cyffredinol ar arfer effeithiol yn yr ystafell ddosbarth i blant sydd â nam ar y clyw.

### A yw athrawon/staff cymorth…?

- Yn sicrhau eu bod wedi dal sylw dysgwr sydd â nam ar y clyw cyn siarad?
- Yn hwyluso darllen gwefusau trwy wynebu'r dosbarth wrth siarad, gan osgoi cael eu cefnau at ffenestr, a pheidio â rhoi'r siaradwr yn y cysgod?
- Yn ailadrodd yr hyn y mae disgyblion eraill yn ei ddweud?
- Yn ei gwneud yn glir pan gyflwynir testun sgwrs newydd?
- Yn siarad yn arferol ac yn glir? Gall gweiddi neu siarad yn araf aflunio patrymau gwefus ac mae llawer o ddysgwyr sydd â nam ar y clyw yn dibynnu ar ddarllen gwefusau.
- Yn sicrhau bod dysgwr sydd â nam ar y clyw yn dilyn trywydd y wers?
- Yn sicrhau bod disgyblion yn gallu dilyn gwaith grŵp/trafodaeth grŵp? Mae'n well cynnal trafodaethau grŵp mewn cylch, gyda siaradwyr yn cymryd eu tro i roi sylwadau a nodi pob siaradwr cyn iddo/iddi siarad.
- Yn sicrhau bod cyfarwyddiadau ar gyfer gwaith cartref yn cael eu hysgrifennu a'u rhoi i'r disgybl?
- Yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y disgyblion? A ydynt yn gallu cynorthwyo i ddatblygu medrau a dealltwriaeth newydd? A ydynt yn datblygu medrau annibyniaeth disgyblion yn briodol? A yw staff cymorth yn meddu ar wybodaeth ddigonol am y pwnc sy'n cael ei addysgu?
- Yn gwybod sut i weithredu ac unioni diffygion sylfaenol technoleg clyw berthnasol y mae'r disgybl yn ei defnyddio, e.e. cymhorthion radio neu system maes sain?
- Yn sicrhau bod adnoddau a dulliau cyflwyno yn cael eu haddasu'n addas i wneud y cwricwlwm yn hygyrch i ddysgwyr?
- Yn sicrhau bod gweithgareddau allgyrsiol neu glybiau ar ôl yr ysgol yn hygyrch i ddysgwyr sydd â nam ar y clyw?

**Syniadau buddiol ar gyfer addasu adnoddau ac addysgu**

Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i wersi sy’n seiliedig ar seiniau, fel ffoneg, iaith a cherddoriaeth, a dylid defnyddio cymhorthion gweledol yn y gwersi, ble bynnag y bo modd. Gall addysgu’r pwyntiau yr ymdrinnir â nhw yn y wers ymlaen llaw fod yn fuddiol hefyd.

Mae defnyddio cyfuniad o addysgu ar-lein, digidol ac wyneb yn wyneb yn rhoi mynediad amlsynhwyraidd i’r cwricwlwm i ddisgyblion sydd â nam ar y clyw.

Rhaid i adnoddau fideo neu waith cartref ar y rhyngrwyd fod yn hygyrch, e.e. is-deitlau.

Mae angen canolbwyntio’n fanwl i ddarllen gwefusau, a gall fod yn flinedig. Nid oes disgwyl i ddysgwyr ddarllen gwefusau am gyfnodau helaeth. Dylai athrawon gofio hefyd na fydd rhywun sy’n darllen gwefusau yn gallu dilyn rhywun yn siarad a gwneud nodiadau ar yr un pryd.

Yn aml, mae dysgwyr sydd â nam ar y clyw yn cael anawsterau â gweithio a’r cof clywedol, a gallai fod angen amser ychwanegol i feddwl.

Caniatewch amser i blant sydd â nam ar y clyw edrych ar gymhorthion gweledol cyn siarad amdanynt.

Gall trafod cynlluniau gwersi â staff cymorth ymlaen llaw gynorthwyo hygyrchedd.

## Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad

- A yw data cyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr sydd â nam ar y clyw yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud?
- A oes unrhyw gymorth ychwanegol yn cael ei roi mewn amgylchedd/lleoliad priodol a thawel?
- A yw’r ysgol wedi rhoi ystyriaeth ddigon da i anghenion disgyblion wrth addasu’r amgylchedd ffisegol?
- Sut mae’r ysgol yn annog disgyblion sydd â nam ar y clyw i fabwysiadu agwedd gadarnhaol at eu nam ar y clyw?
- A yw’r ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion sydd â nam ar y clyw gyfarfod â phobl ifanc eraill sydd â nam ar y clyw, lle bo’n briodol?
- A gaiff mesurau rheoli priodol eu nodi mewn asesiadau risg i sicrhau nad yw disgyblion sydd â nam ar y clyw yn cael eu rhoi dan anfantais? Er enghraifft, efallai na fydd disgyblion sydd â nam ar y clyw yn clywed larwm tân clywadwy.

**Syniadau buddiol ar gyfer addasu'r amgylchedd**

Dylid rhoi disgyblion sydd â nam ar y clyw i eistedd mewn man lle gallant weld a chlywed yr athro, ac adnabod siaradwyr eraill yn y dosbarth.

Defnyddio dodrefn meddal i wella acwsteg a lleihau datseinedd sain.

Lleihau sŵn yn y cefndir.

Gwneud defnydd hyderus a chyson o unrhyw dechnoleg berthnasol, fel cymhorthion radio neu systemau maes sain.

## Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth

**A yw arweinwyr yn yr ysgol…?**

- Yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer dysgwyr sydd â nam ar y clyw?
- Yn sicrhau bod pob un o'r staff wedi cael hyfforddiant sylfaenol am ymwybyddiaeth o fyddardod?
- Yn sicrhau bod staff perthnasol yn meddu ar gymhwyster priodol ar gyfer gweithio gyda phlant sydd â nam ar y clyw? Pan fydd dosbarth arbenigol awdurdod lleol, a oes athro cymwys ar gyfer y plant byddar? (Arbenigwr sydd â chymhwyster ôl-raddedig i addysgu plant sydd â nam ar y clyw.) Pan fydd dysgwr yn defnyddio iaith arwyddion Prydain, a yw'r disgybl yn cael cymorth gan weithiwr proffesiynol sydd â chymhwyster lefel 3 o leiaf mewn iaith arwyddion Prydain?
- Yn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o glyw ymhlith disgyblion a rhieni?